

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

DYDD Gwener, 9 Gorffennaf 2021

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: G. Davies (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Ystafell Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP -
9.00 - 9.10 yb

1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18FED MAI 2021.

PENDERFYNWYD Ilofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 18 Mai, 2021 yn gofnod cywir.

3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL.

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/Yr Aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Rhoddyd ystyriaeth hefyd i benodiad i'r Pwyllgor Rheoli sy'n goruchwyllo holl Unedau Cyfeirio Disgyblion Awdurdod Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin

PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrrff Llywodraethu:-

Ysgol Gynradd	Penodiadau
Bigyn (1 lle gwag – 1 enwebiad)	Y Cyngorydd Andre McPherson
Ffederasiwn Llangain/Llansteffan a Bancyfelin (4 lle gwag – 5 enwebiad)	Y Cyngorydd Carys Jones Mr G. Edwards Mr H Iorwerth Mrs N Pejsak

Stebonheath (2 le gwag – 2 enwebiad)	Mrs R De Filipo Mrs K Marson
--	---------------------------------

PENDERFYNWYD HEFYD wneud y penodiad canlynol i'r Pwyllgor Rheoli sy'n goruchwyllo holl Unedau Cyfeirio Disgyblion Awdurdod Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin

Penodi Aelod o'r Awdurdod Lleol i Bwyllgor Rheoli Unedau Cyfeirio Disgyblion	Penodiadau
Pwyllgor Rheoli sy'n goruchwyllo holl Unedau Cyfeirio Disgyblion Awdurdod Lleol Cyngor Sir Caerfyrddin (1 lle gwag - 1 enwebiad - o 1 Medi 2021)	Ms J Antoniazzi – (Swyddog Arweiniol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Gwasanaethau Ymddygiad ac Unedau Cyfeirio Disgyblion)

AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL

DYDDIAD